Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Personél, 13/01/20

Yn bresennol: Y Cynghorwyr A.Hopcyn (yn y Gadair), E.R.Hughes, S.Sage

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr E.Lovgreen, C.Williams

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Dim

4. Materion Staffio

Nodwyd y canlynol:

(1) Bod Gwyneth, Gweinyddwr y Cyngor ac Ysgrifenyddes y Maer, yn ymddeol ddiwedd Chwefror.

(2) Bod angen edrych ar sut swydd fydd yn cael ei hysbysebu yn ei lle a cyflwynwyd y canlynol i'r pwyllgor:

- Swydd Ddisgrifiad ar gyfer Gweinyddwr y Cyngor ac Ysgrifenyddes y Maer.
- Swydd Ddisgrifiad ar gyfer Dirprwy Glerc. Nododd y Clerc ei fod wedi llunio hwn yn dilyn trafod efo cynghorau eraill.

(3) Y cyflwynwyd hefyd gopi o'r graddfeydd cyflog.

(4) Y bydd angen argymhelliad i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar y 23ain o Ionawr, er mwyn gwneud argymhelliad terfynol i'r Cyngor Llawn ar y 4ydd o Chwefror. Yn dilyn hyn gall y trefniadau o ran hysbysebu gael eu gwneud.

(5) Ar y funud roedd Gwyneth ar raddfa LC1 Band 19, ond ddim yn gweithio llawn amser.

Trafodwyd yr opsiynau o ran y math o swydd i'w hysbysu, y math o newidiadau y gellid eu gwneud wrth symud ymlaen ac yn lle dylai'r hysbyseb fynd.

Dosbarthwyd y strwythur staffio mewn Cynghorau Tref agos a chyffelyb.

Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Cyllid y dylid:

(1) Derbyn y Swydd Ddisgrifiad / Manyleb Person ddiwygiedig ar gyfer y swydd Dirprwy Glerc (Atodiad A) fel y swydd y dylid ei hysbysebu.

(2) Hysbysebu am swydd Dirprwy Glerc Llawn Amser ar raddfa cyflog 18 – 23, gyda'r hyblygrwydd i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar ganol y raddfa os ar gyflog cyffelyb yn barod.
(3) Y dylai'r Panel Penodi gynnwys y Cynghorwyr W.Tudor Owen (fel Maer), C.Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Personél), M.Sarnacki (fel Dirprwy Faer) a'r Clerc (dim pleidlais).
(4) Gofyn i'r Cynghorwyr I.C.Thomas, W.L.Davies ac E.Lovgreen fod wrth gefn (er mwyn sicrhau fod un benyw ar y panel).

Gorffennodd y cyfarfod am 6.45 p.m.